



Pigion Penallta

Cyfrol 5

Mawrth 2020

Cylchlythyr tymhorol am y bywyd gwyllt ym Mharc Penallta

Efallai nad oedd llawer o eira'r gaeaf hwn, ond roedd bendant lawer o law!

Er roedd yn wlyb mae wedi bod yn aeaf cymharol fwyn ar y cyfan ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn nifer yr adar a welsom yn ymweld â'n gorsaf fwydo yn y ganolfan addysg. Mae'r tywydd mwyn a blwyddyn dda ar gyfer cynhyrchu hadau wedi golygu bod nifer o rywogaethau wedi gallu dod o hyd i lawer o fwyd naturiol yn y cefn gwlad o amgylch a doedd dim angen yr hadau blodau haul ychwanegol y gwnaethon ni eu gwasgaru ar eu cyfer. Mae ymwelwyr y gaeaf fel pilaod gwyrdd a llinosiaid pengoch wedi bod yn amlwg yn eu habsenoldeb. Er gwaethaf hynny, mae nifer o'r rhywogaethau preswyl wedi bod yn ein diddanu. Ein hymwelwyr o fri oedd cochion y berllan. Maen nhw'n adar cyfrinachgar fel arfer, gan gadw at y perthi a choetiroedd, ond maen nhw wedi dod yn eithaf hyderus ac yn aml yn ymweld am 5 munud ac yn hel yr adar eraill ymaith!



Ffwng cwpan robin

Er gall mis Chwefror fod yn un o fisoedd mwyaf llwm y flwyddyn, mae dal ychydig o dlysau i'w gweld os ydych chi'n edrych yn ofalus. Gellir dod o hyd i ffwng cwpan robin goch ymhlith sbwriel y dail. Maen nhw'n blaguro o frigau sy'n pydru, gan ddod a fflach o liw i ddiwrnod tywyllaf y gaeaf.

Mae nawr yn amser gwych i edrych yn ofalus ar un o'n rhywogaethau o goed mwyaf cyffredin, y Goeden Gyll. Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â'r cynffonnau 'wryn bach' gwyrdd gwelw, sef blodau gwrywaidd y Goeden Gyll ond ychydig o bobl sy'n cymryd yr amser i weld y blodyn bach coch benywaidd sy'n tyfu o frig blaguryn newydd. Mae'r Goeden Gyll yn dibynnu ar y gwynt i ysgwyd y paill yn rhydd o'r cynffonnau wryn bach gwrywaidd a'u trosglwyddo i flodau benywaidd coeden arall. Cadwch lygad allan ar ddiwrnodau braf yn ystod y gwanwyn ac efallai y byddwch chi'n gweld paill



Blodyn cyll benywaidd

melyn yn lluwchio i ffwrdd ar yr awel. Unwaith bod blodyn benywaidd wedi'i beillio, fe fydd yn dechrau datblygu i fod yn gneuen i'w thynnu yn yr hydref.

Mae'n hawdd anghofio pa mor gytwys yw'r byd naturiol a sut mae newidiadau bach yn gallu arwain at ganlyniadau mawr. Roedd hyn yn amlwg ychydig ar ôl y Nadolig pan welsom achos o facteria sylffwr porffor yn un o byllau'r parc. Mae hyn yn facteria sy'n bresennol yn naturiol ac yn lluosogi mewn amgylcheddau sydd llawn maeth ac sydd â lefelau isel o ocsigen. Er nad yw'n peri unrhyw broblemau tymor hir i'r bywyd gwyllt, mae'n edrych yn hyll a gall arogl fel wyau sydd wedi pydru. Diolch byth na all oroesi mewn amodau mwy ocsigenedig ac mae'n ymddangos ei fod yn lleihau wrth i ni wella llif y dŵr trwy'r pwll. Mae ymyl arian i bob cwmwl porffor! Wrth dreulio amser o amgylch y pwll yn casglu samplau o'r dŵr a glanhau nant y gilfach, daethom o hyd i un o'r preswylwyr mwyaf anodd ei ddal - y rhegen ddŵr. Mae'r aderyn rhydiol brown a llwyd hwn yn mwynhau cuddio yng ngwelyau cyrs ac yn anaml iawn y gwelir ef er bod ei alwad, sy'n swnio ychydig fel mochyn yn gwichian, yn eithaf unigryw!

Mae cydbwysedd naturiol coetiroedd y Deyrnas Unedig hefyd mewn cythrwfl ar hyn o bryd gan fod llawer o glefydon coed yn lledaenu ledled y wlad. Mae *Phytophthora ramorum*, sy'n ymosod ar goed llarwydd, wedi lladd planhigfeydd ledled y wlad. O ganlyniad, mae nifer o goedwigoedd llarwydd, yn enwedig ar draws De Cymru, yn cael eu torri i lawr ac mae rhywogaethau sydd ddim yn cael eu heffeithio gan yr afiechyd yn cael eu hailblannu. Dros y blynyddoedd i ddod, byddwn yn ceisio lleihau'r nifer o goed llarwydd sydd yma ym Mhenallta ac rydyn ni wedi bod yn ffodus iawn i sicrhau cyllid i ddechrau hyn dros y mis nesaf. Bydd pren a gynhyrchir gan y torri coed cyntaf hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer o gynlluniau adeiladu lleol ac yna bydd ailblannu yn digwydd yn yr ardal gyda rhywogaethau llydanddail cymysg.



Llusern Teigr Awr Ddaear gan Ben Sands

Mae'r gwanwyn bron yma ac wrth i'r dyddiau fynd yn hirach a'r tymheredd godi, gwnewch y mwyaf o'r amser gwych hwn o'r flwyddyn. Cadwch lygad allan ar gyfer ein dathliad Awr Ddaear ar ddiwedd mis Mawrth ac ymuno â ni am noswaith o gelf, storïau a llusernau... a chadw llygad allan ar gyfer y teigr!